



Diweddariad Llif Gwaith Gofalwr Gogledd Cymru

Ionawr 2018

Diolch i bawb sydd wedi bod ynghlwm â rhannu eu storïau fel gofalwyr a gwybodaeth am y gwasanaeth yr ydych yn ei ddarparu i ofalwyr yng Ngogledd Cymru. Rydym yn dechrau cael darlun gwell o'r holl waith da sydd yn digwydd, ond mae dal rhai meysydd lle byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth.

Storïau'r Gofalwyr

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Grŵp Cyfeirio Gofalwyr i greu fideo o storïau'r gofalwyr. Mae'r negeseuon a rennir yn y clipiau hyn yn bwerus ac yn rhoi cipolwg pwysig i mewn i sefyllfaoedd gofalwyr. Mae'r rhan hon o'r prosiect yn hanfodol i wneud yn siŵr bod unrhyw ddatblygiadau eraill yn seiliedig ar realiti sefyllfa'r gofalwr ac wedi ffocysu ar beth sydd o bwys i'r gofalwyr. Rydym wedi gorffen y gwaith hwn bellach – diolch i bawb a gymerodd ran.

Mapio Adnoddau

Rydym eisiau gwybod pa wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yng Ngogledd Cymru a sut maent yn cael eu cyllido i'n helpu i wneud y mwyaf o beth sydd ar gael ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Diolch i bawb sydd wedi darparu gwybodaeth hyd yma. Mae wedi cymryd mwy o amser na ragdybiwyd yn wreiddiol i gasglu'r wybodaeth gan bawb, felly ymddiheuriadau os nad ydych wedi cael y cyfle eto i gyflwyno eich gwybodaeth neu yn credu bod y broses yn dyblygu adroddiadau eraill yr ydych yn ei gynhyrchu.

Rhowch wybod i ni os oes gennych yr wybodaeth wedi'i gasglu'n barod ar gyfer rhywbeth arall, a byddwn yn ei ddefnyddio yn lle eich bod yn llenwi ffurflen arall ar gyfer y prosiect hwn. Mae'n bwysig iawn ein bod yn clywed gan bob sefydliad gofalwyr yng Ngogledd Cymru i gael y darlun cyflawn o'r gwaith sy'n digwydd, felly os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i fod yn haws, rhowch wybod i ni.

Byddwn yn anelu i gwblhau'r rhan hwn o'r prosiect erbyn mis **Chwefror 2018**. Os ydych am gael trafferth anfon eich gwybodaeth atom erbyn hynny, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

Cyfarfod darparwyr a chomisiynwyr

Roedd Hawis Jones, ein Rheolwr Busnes Rhanbarthol wedi bod o amgylch ac yn ceisio cyfarfod â rhan fwyaf o ddarparwyr a chomisiynwyr â phosibl. Mae hyn hefyd wedi cymryd mwy o amser nag yr oeddem yn ei ddisgwyl. Bydd Hawis yn parhau i gyfarfod gymaint o bobl ag y gallai fel rhan o'r prosiect hwn, a hefyd yn mynychu grŵp gweithredol ac yn adrodd i'r grŵp strategol i helpu cadw pobl yn hysbys. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn y cyfamser, ffoniwch Hawis.

Adroddiad Drafft

Rydym wedi ysgrifennu'r wybodaeth sydd wedi dod i law hyd yma mewn adroddiad drafft sydd wedi cael ei rannu â phartneriaid. Ers ei ddsbarthu rydym wedi cael rhagor o wybodaeth, yn cynnwys cyflwyniad gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, a chawsom gyfarfod dilynol gyda Gill Winter a Kate Cabbage (Uwch Reolwr Materion Allanol, Ymddiriedolaeth Gofalwyr). Byddwn yn gweithio gyda hwy a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd ac i lenwi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth. Roedd yr adroddiad hwn yn waith yn cael ei ddatblygu, ac mae ei ddsbarthu fel drafft cynnar wedi helpu i adnabod rhai meysydd sydd angen rhagor o waith. Unwaith y byddwn wedi cwblhau'r gwaith hwn, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gytuno ar sut rydym yn cyflwyno canfyddiadau terfynol y prosiect a chynhyrchu drafftiau i chi roi sylwadau arnynt.

Beth Nesaf

- Mapio Adnoddau: Os nad ydych wedi anfon gwybodaeth ynghylch eich gwasanaethau atom ar gyfer yr ymarfer mapio adnoddau, allwch chi wneud hyn cyn gynted â phosibl? Rydym yn anelu i orffen y rhan hon o'r prosiect erbyn diwedd mis Chwefror. Os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i helpu, rhowch wybod.
- Gweithdai: Rydym wedi trefnu gweithdai wedi'u hwyluso yn ystod mis Rhagfyr i wneud yn siŵr ein bod yn cael safbwyntiau ein holl bartneriaid, ac rydym yn falch bod Andrew Cozens wedi bod yn gweithio gyda ni i hwyluso'r rhain. Cynhaliwyd y gweithdy i aelodau o'r grwpiau gofalwyr gweithredol a strategol ar 7 Rhagfyr 2017. Hefyd cynhaliwyd

gweithdy ar 16 Tachwedd 2017 gydag aelodau Grŵp Cyfeirio Gofalwyr.

Byddwn yn parhau i gynnal gweithdai fel bo'n briodol yn ystod datblygiad o'r gwaith hwn.

- Cyllid Grant Trawsnewidiol Gofalwyr: Mae'r Bwrdd Iechyd yn trafod y mater o'r gwasanaethau yn cael eu comisiynu o'r grant gyfredol a byddant yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda darparwyr mewn perthynas â hyn.
- Ein bwriad fel rhanbarth yw datblygu ein perthynas waith yn y dyfodol gyda holl bartneriaid i greu amgylchedd o gydraddoldeb, tryloywder ac ymddiriedaeth.
- Bydd hefyd gyfle i ailedrych ar lywodraethu ac aelodaeth y Grŵp Strategol a Grŵp Gweithredol Gofalwyr i sicrhau bod gennym y bobl a chymysgedd iawn yn eistedd ar y grwpiau hyn.
- Bydd amserlenni'r cyflawniadau angen eu hadolygu yn dilyn y trafodaethau yn y gweithdai diweddar. Bydd amserlen mwy diffiniedig yn cael ei gytuno.

Cefndir

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarth Gogledd Cymru (NWRPB) wedi blaenoriaethu gwasanaethau i ofalwyr fel un o'i bum maes blaenoriaeth. Mae cwmpas y gwaith wedi'i gynnwys yn y Ddogfen Sefydlu Llif Gwaith, a gytunwyd gan y NWRPB yn gynharach yn y flwyddyn ariannol.

Pwrpas y gwaith hwn yw:

- Bydd gweld drwy lygaid gofalwyr ac i ddylunio gwasanaethau cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at gadw gofalwyr yn iach.
- Canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r gofalwr a beth fyddai'n eu cynorthwyo i fod yn ofalwr, i barhau i fod yn ofalwr ac i fyw eu bywyd yn y modd y maent yn dymuno.

Y cwmpas yw:

- Deall ein sefyllfa bresennol yng Ngogledd Cymru a beth yw llwyddiant.
- Deall beth yw ein blaenoriaeth o ran cyrraedd y nod.
- Bod yn glir o ran cyllid a chynaliadwyedd gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
- Adnabod y gwerth ychwanegol o weithio gyda'n gilydd yn rhanbarthol yn ogystal â chydweithio.

Y prif ganlyniadau yr ydym eisiau eu gweld yw:

- Pan fo anghenion gofalwyr unigolyn cael eu diwallu yn y ffordd orau
- Pan fo gofalwyr yn cael eu hystyried ar yr un adeg â'r rhai sy'n derbyn gofal
- Gwasanaethau sydd yn gyson
- Y gwerth ychwanegol o gydweithio

Y prif ganlyniadau yr ydym eisiau eu gweld yw:

- Bod gwasanaethau a chyllid heb eu dyblygu
- Ein bod ni (fel partneriaid) yn glynu wrth yr arferion gorau

Byddwn yn mesur llwyddiant drwy:

- Gofalwyr yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod fel gofalwr
- Gofalwyr yn dweud wrthym fod gwybodaeth a chefnogaeth y maent wedi'u derbyn wedi'u cynorthwyo â'u rôl o ofalu
- Gofalwyr yn dweud wrthym y gallent barhau â'r hyn sy'n bwysig iddynt yn eu bywydau e.e. addysg, gwaith, gweithgareddau hamdden
- Gofalwyr yn dweud wrthym eu bod eisiau parhau â'u rôl o ofalu.

Hefyd amlinellodd y Ddogfen Sefydlu Llif Gwaith y dull a fydd yn cael ei gymryd a fyddai'n cynnwys gweithio ar y cyd a chyd-gynhyrchu ar draws sefydliadau partner i gynnwys darparwyr gwasanaeth o'r trydydd sector, sector annibynnol a sefydliadau partner.

Roedd amserlen cychwynnol i ddarparu wedi'i gynnwys, ond roeddem wedi cytuno i adolygu hyn fel mae'r llif gwaith yn datblygu.

Cysylltwch â ni

Hawis Jones

Rheolwr Busnes Rhanbarthol - Gofalwyr
01286 679661

Ffôn Symudol: 07920 782768

E-bost: hawis.jones@sirddinbych.gov.uk